

# Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

## Proffil Nwyddau: Llus Sych

Llus Sych, Apicoop, Chile



**1.** Apicoop yw'r unig ffynhonnell yn y byd o lus sych wedi'u trwytho mewn mêl i'w hallforio. Mae'n rhaid i lwyni llus dyfu am dair blynedd cyn gallu cynhyrchu cynhaeaf o aeron ac mae'n rhaid gofalu am y llwyni'n dda a'u tocio tan hynny, felly mae'n fuddsoddiad drud iawn.

**2.** Rhaid plannu llwyni llus mewn twll yn llawn blawd llif i warchod y planhigyn cyn ei roi yn y twll. Rhaid rhoi plaladdwyr i gael gwared â'r chwyn ac mae angen system ddyfrhau dda. Mae'n rhaid ei pharatoi cyn plannu. Mae pibell yn rhedeg ac yn chwistrellu diferion o ddŵr ar hyd ble mae'r planhigion. Mae hon yn ffordd dda, effeithiol o ddyfrhau sy'n defnyddio'r lleiaf posibl o ddŵr.

**3.** Mae rhew yn gallu niweidio llawer ar lwyni llus a hyd yn oed eu lladd felly mae'n bwysig cael ffordd effeithiol o'u gwarchod. Chwistrellir tawch o ddŵr i gadw'r planhigion ar dymheredd cyson.



**4.** Mae llus yn cael eu cynhaefu o ddiwedd Ionawr hyd at ddechrau Ebrill. Mae gwahanol rywogaethau o lus yn barod ar wahanol adegau ac mae gan Apicoop nifer o wahanol rywogaethau y gellir eu cynhaefu, y naill ar ôl y llall.

**5.** Ar ôl eu cynhaefu maen nhw'n cael eu cadw mewn ystafell oer. Yna maen nhw'n cael eu hanfon at y Cwmni Prosesu Llus i'w trwytho mewn mêl. Dyma'r llus sych cyntaf erioed i'w trwytho mewn mêl - fel arfer maen nhw'n cael eu trwytho mewn siwgr ac roedd yn rhaid i Apicoop arbrofi am dipyn i gael y broses yn iawn.

**6.** Wedyn bydd y llus yn cael eu cadw mewn lle glân a sych a'u pacio mewn blychau 10 cilogram. Apicoop sy'n eu storio ac yna'n eu cludo. Maen nhw'n cyrraedd Traidcraft ac yn cael eu dosbarthu i wneuthurwyr Geobar a muesli neu i'w pacio i'w gwerthu fel byrbryd.

